YSGOL MORGAN LLWYD

Ym mhob llafur y mae elw




# PROSBECTWS TGAU

2025

@ymll_wrecsam
@YsgMorganLlwyd
Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam

01978 315050
Ysgol Morgan Llwyd, Cefn Road,
Wrecsam, LL13 9NG
www.ysgolmorganllwyd.cymru
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk

# CYNNWYS




1 CYFLWYNIAD
2 MANYLION CYSWLLT
3 LLÊN AC IAITH GYMRAEG (DWYRADD)
4 LLÊN AC IAITH GYMRAEG (GRADD UNIGOL)
5 LLENYDDIAETH AC IAITH SAESNEG
6 MATHEMATEG
7 GWYDDONIAETH DWYRADD
8 BAGLORIAETH CYMRU
9 ADEILADWAITH
10 ADDYSG GORFFOROL
11 ASTUDIAETHAU BUSNES
12 BUSNES ADWERTHU
13 ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
14 CELF A DYLUNIO

# CYNNWYS




15 CERDD
16 CYFRYNGAU
17 DAEARYDDIAETH
18 DRAMA
19 DYLUNIO CYNNYRCH
20 FFRANGEG & SBAENEG
21 FFASIWN A THECSTILIAU
22 IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT
23 GWYDDONIAETH TRIPHLYG
24 HANES
25 LLETYGARWCH AC ARLWYO
26 PEIRIANNEG
27 TECHNOLEG DDIGIDOL

# CYFLWYNIAD

Bwriad y llawlyfr hwn yw rhoi gwybodaeth i ddisgyblion blwyddyn 9 a'u rhieni am opsiynau TGAU 2025.

Bydd pob disgybl yn dilyn cyrsiau yn y pynciau craidd; Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a'r Fagloriaeth a byddant hefyd yn dewis 3 phwnc opsiwn.

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am yr opsiynau hynny ac yn rhan o raglen o weithgareddau fydd yn digwydd i gynorthwyo'r disgyblion i ddewis eu hopsiynau.

Am ragor o fanylion, ac i weld y manylebau llawn, ewch i wefan CBAC: **www.cbac.co.uk**

*Mrs Einir Lois Jones*

**Dirprwy Bennaeth**





# MANYLION CYSWLLT

01978 315050

Ysgol Morgan Llwyd, Cefn Road, Wrecsam, LL13 9NG

www.ysgolmorganllwyd.cymru

bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk

@ymll_wrecsam

@YsgMorganLlwyd

Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam

# LLÊN AC IAITH GYMRAEG (DWYRADD)

## *BYDD CYMHWYSTER YN EICH CEFNOGI I:*

"Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl." (Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, 2017, t.2). Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyrraedd y targed 'miliwn o siaradwyr Cymraeg' erbyn 2050 ac rydych chi'n un o'r miliwn! Dyma gymhwyster cyffrous, newydd ble byddwch yn astudio cyfoeth o lenyddiaeth fydd yn sbarduno'r dychmyg, yn meithrin eich chwilfrydedd ac yn eich paratoi i gyfathrebu a byw drwy gyfrwng y Gymraeg

## *BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO:*

***UNED 1 (Naratif) –*** yn yr uned hon byddwch yn astudio nofel gyfoes Gymraeg ac yn dysgu sut i werthfawrogi'r cynnwys, cymeriadau, themâu a phlot. Byddwch yn ymateb yn bersonol a chreadigol i'r nofel hefyd.
***UNED 2 (Hunaniaeth)*** – yn yr uned hon byddwch yn astudio testun gweledol h.y. ffilm neu raglen deledu, ac yn cynnal trafodaeth grŵp i drafod y plot, cymeriadau a themâu. Byddwch yn datblygu eich sgiliau gwrando ac ymateb yn ogystal â'r sgil o gyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg.
***UNED 3 (Agweddau)*** – yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o gerddi er mwyn dysgu sut i werthfawrogi eu cynnwys, arddull a neges. Byddwch hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn unigol ar destun o'ch dewis.
***UNED 4a (Cysylltiadau Ieithyddol)*** - yn yr uned hon byddwch yn darllen amrywiaeth o destunau ysgrifenedig ac yn dysgu sut i gyfuno a chrynhoi gwybodaeth. Byddwch hefyd yn ymateb yn greadigol i'r testunau mewn amrywiaeth o ffurfiau gwahanol.
***UNED 5 (Ymateb a Chreu)*** - yn yr uned hon byddwch yn ymateb a rhyngweithio ar lafar fel grŵp i destun cyfoes gan ddatblygu'ch sgiliau mynegi barn. Byddwch hefyd yn cael y cyfle i ysgrifennu'n greadigol fel rhan o'r gwaith cwrs.
***UNED 6 (Cyfleu Ystyr)*** - yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o straeon byrion ac yn dysgu sut i gymharu a gwerthfawrogi testunau llenyddol.

## *SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU:*

***ARHOLIAD –*** Bydd tri arholiad ysgrifenedig werth 60% o'r cymhwyster Dwyradd yn unedau 1, 4b a 6. Bydd arholiad unedau 1 a 6 yn 90 munud o hyd, gydag arholiad uned 4 yn 120 munud o hyd. Bydd yr arholiadau'n cynnwys amrywiaeth o gwestiynau darllen a deall, atebion estynedig a chyfle i ysgrifennu'n greadigol.

***ASESIAD DI-ARHOLIAD –*** Bydd pum asesiad di- arholiad werth 40% o'r cymhwyster Dwyradd yn unedau 2, 3 a 5. Bydd dau asesiad llafar grŵp, un asesiad llafar unigol a dau asesiad ysgrifenedig (gwaith cwrs).

## *PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU:*

Mae TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn bwnc craidd fydd yn eich helpu i ddatblygu'r amrywiaeth o sgiliau isod:
- Datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith
- Datblygu sgiliau darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu
- Datblygu sgiliau rhyngweithio mewn pâr neu grŵp gan wrando ar eraill, mynegi barn a dod i gasgliadau
- Datblygu sgiliau creadigol yn ysgrifenedig a thrwy ddarllen ystod eang o ffurfiau
- Datblygu sgiliau gwerthfawrogi llenyddiaeth
- Datblgu sgiliau siarad cyhoeddus
- Meithrin chwilfrydedd ynglŷn â'r Gymraeg ar gyfer astudiaethau pellach, yn y gweithle ac y gymuned.

## *GYRFAOEDD O FEWN Y PWNC:*

Diben y cymhwyster hwn yw i'ch ysbrydoli i fod yn ddinasyddion sy'n ymfalchïo yn niwylliant, hanes ac iaith eich gwlad. Mae swyddi yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg rydych chi ar y blaen i'r lleill cyn dechrau! Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ym mhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau, adloniant, chwaraeon a llawer mwy. Mae'r daith at y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn un cyffrous ac rydych chi'n rhan ohoni.

# LLÊN AC IAITH GYMRAEG (GRADD UNIGOL)

***BYDD CYMHWYSTER YN EICH CEFNOGI I:***

"Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl." (Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, 2017, t.2). Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyrraedd y targed 'miliwn o siaradwyr Cymraeg' erbyn 2050 ac rydych chi'n un o'r miliwn! Dyma gymhwyster cyffrous, newydd ble byddwch yn astudio cyfoeth o lenyddiaeth fydd yn sbarduno'r dychmyg, yn meithrin eich chwilfrydedd ac yn eich paratoi i gyfathrebu a byw drwy gyfrwng y Gymraeg.

***BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO:***

***UNED 1 (Naratif)*** - yn yr uned hon byddwch yn astudio nofel gyfoes Gymraeg ac yn dysgu sut i werthfawrogi'r cynnwys, cymeriadau, themau a phlot. Byddwch yn ymateb yn bersonol a chreadigol i'r nofel hetyd.
***UNED 2 (Hunaniaeth)*** - yn yr uned hon byddwch yn astudio testun gweledol h.y. ffilm neu raglen deledu, ac yn cynnal trafodaeth grwp i drafod y plot, cymeriadau a themau. Byddwch yn datblygu eich sgiliau gwrando ac ymateb yn ogystal a'r sgil o gytathrebu'n hyderus yn y Gymraeg.
***UNED 3 (Agweddau)*** - yn yr uned hon byddwch yn astudio casgliad o gerddi er mwyn dysgu sut i werthtawrogi eu cynnwys, arddull a neges. Byddwch hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn unigol ar destun o'ch dewis.
***UNED 4a (Cysylltiadau leithyddol)*** - yn yr uned hon byddwch yn darllen amrywiaeth o destunau ysgrifenedig ac yn dysgu sut i gytuno a chrynhoi gwybodaeth. Byddwch hefyd yn ymateb yn greadigol i'r testunau mewn amrywiaeth o ffurfiau gwahanol.

***SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU:***

***ARHOLIAD -*** Bydd dau arholiad ysgrifenedig werth 60% o'r cymhwyster Gradd Ungiol yn unedau 1 a 4. Bydd y ddau arholiad yn 90 munud o hyd ac yn cynnwys amrywiaeth o gwestiynau darllen a deall, atebion estynedig a chyfle i ysgrifennu'n greadigol.
***ASESIAD DI-ARHOLIAD*** - Bydd tri asesiad di-arholiad werth 40% o'r cymhwyster Gradd Unigol yn unedau 2 a 3. Bydd dau asesiad llatar (unigol a grwp) ac un asesiad ysgrifenedig (gwaith cwrs).

***PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU:***

Mae TGAU laith a Llenyddiaeth Gymraeg yn bwnc craidd fydd yn eich helpu i ddatblygu'r amrywiaeth o sgiliau isod:
· Datblygu sgiliau a strategaethau dysgu iaith
· Datblygu sgiliau darllen, gwrando, siarad ac ysgrifennu
· Datblygu sgiliau rhyngweithio mewn par neu grwp gan wrando ar eraill, mynegi barn a dod i gasgliadau
· Datblygu sgiliau creadigol yn ysgrifenedig a thrwy ddarllen ystod eang o ffurfiau
· Datblygu sgiliau gwerthtawrogi llenyddiaeth
· Datblgu sgiliau siarad cyhoeddus
· Meithrin chwilfrydedd ynglyn a'r Gymraeg ar gyter astudiaethau pellach, yn y gweithle a'r gymuned.

***GYRFAOEDD O FEWN Y PWNC:***

Diben y cymhwyster hwn yw i'ch ysbrydoli i fod yn ddinasyddion sy'n ymfalchi’o yn niwylliant, hanes ac iaith eich gwlad. Mae swyddi yng Nghymru yn aml yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg fel rhywbeth hanfodol neu ddymunol. Os oes gennych chi gymhwyster TGAU laith a Llenyddiaeth Gymraeg rydych chi ar y blaen i'r lleill cyn dechrau! Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn bwysig ac o fantais ym mhob maes gan gynnwys addysg, iechyd a gofal, y llywodraeth, y cyfryngau, adloniant, chwaraeon a llawer mwy. Mae'r daith at y miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn un cyffrous ac rydych chi'n rhan ohoni.

# LLENYDDIAETH AC
# IAITH SAESNEG
# (GRADD UNIGOL A DWYRADD)

## ***BYDD CYMHWYSTER YN EICH CEFNOGI I:***

Mae'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (Dyfarniad Dwbl) yn eich galluogi i werthfawrogi sut mae iaith yn eich cysylltu â'r byd o'ch cwmpas. Mae hefyd yn eich galluogi i fynd i'r afael ag ystod gyfoethog o destunau o wahanol gyfnodau a chan awduron amrywiol, yn ogystal â datblygu a chymhwyso eich defnydd eich hun o iaith, trwy gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig.

## ***BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO:***

***Uned 1 CYD-DESTUN AC YSTYR*** – Yn Uned 1, byddwch yn astudio ystod o farddoniaeth allan o flodeugerdd, gan fynd i'r afael â Chyd-destun ac Ystyr y darnau.

***Uned 2 PERTHYN –*** Yn Uned 2, byddwch yn astudio testun rhyddiaith, gan fynd i'r afael â'r cysyniad o berthyn yn ogystal â themâu megis cymuned, cynefin a dinasyddiaeth.

***Uned 3 DYLANWAD A PHŴER*** – Yn Uned 3, byddwch yn astudio amrywiaeth o destunau ffeithiol, gan fynd i'r afael â Dylanwad a Phŵer awduron, a sut mae awduron a siaradwyr yn defnyddio pŵer ac yn ceisio dylanwadu ar eraill.

***Uned 4b CYMHELLIANT*** – Yn Uned 4b, byddwch yn cael cyfle i astudio drama neu destun rhyddiaith gan fynd i'r afael â chymhelliant awduron a chymeriadau, gan archwilio rhesymau dros agweddau, ymddygiadau a chredoau gwahanol.

***Uned 5 PARHAD A NEWID –*** Yn Uned 5, byddwch yn astudio un o ddramâu Shakespeare a barddoniaeth a ysgrifennwyd cyn yr 20fed ganrif. Byddwch yn ystyried Parhad a Newid fel cysyniadau, a sut mae agweddau, syniadau ac iaith wedi newid dros amser.

***Uned 6 CYSYLLTIADAU –*** Yn Uned 6, byddwch yn astudio testunau ffeithiol gan ganolbwyntio ar y cysyniad o Gysylltiadau. Byddwch yn archwilio'r cysylltiadau rhwng testunau gwahanol a'u cysylltu ag amser, lleoliad, iaith, a pherthnasoedd.

## ***SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU:***

Bydd Unedau 1, 4b a 6 yn cael eu hasesu drwy arholiadau, ac mae'r rhain gyda'i gilydd yn werth 60% o'r cymhwyster. Mae pob arholiad yn para 90 munud a bydd yn cynnwys cwestiynau tariff isel sy'n seiliedig ar ddetholiadau, ymateb traethawd estynedig, a darn o ffuglen greadigol neu ysgrifennu ffeithiol.
Bydd Unedau 2, 3 a 5 ar ffurf asesiadau di-arholiad, ac mae'r rhain gyda'i gilydd yn werth 40% o'r cymhwyster. Bydd pob uned yn cynnwys dwy dasg, un a fydd yn asesu eich ymateb ysgrifenedig i'r testun(au) perthnasol ac un a fydd yn asesu eich sgiliau llafaredd.

## ***PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU:***

Fel pwnc craidd, mae'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg yn eich helpu i ddatblygu ystod eang o sgiliau ar gyfer eich dyfodol:
- Sgiliau Cyfathrebu – mynegi eich hun drwy gyfathrebu'n glir ac yn greadigol
- Sgiliau Darllen – darllen, gwrando ar ac ymchwilio i amrywiaeth o destunau, dadansoddi ystyr y cynnwys, a chraffu ar ddibynadwyedd
- Sgiliau Dadansoddi Cyd-destunol – mynd i'r afael ag arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa, a chyd-destunau darnau siarad, darllen ac ysgrifennu
- Sgiliau Llythrennedd – datblygu a chymhwyso dealltwriaeth o ramadeg a'r defnydd o eirfa.

## ***GYRFAOEDD O FEWN Y PWNC:***

Mae'r cwrs TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg wedi'i gynllunio i'ch arfogi ag amrywiaeth gyfoethog o sgiliau ar gyfer eich dyfodol mewn addysg a'r byd gwaith. Mae'n gymhwyster sy'n cael ei werthfawrogi'n eang ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer astudiaethau pellach o lenyddiaeth, iaith, ac ystod eang o bynciau academaidd eraill ar lefel Safon Uwch a thu hwnt. Gall agor drysau i amrywiaeth o lwybrau gyrfa fel y gyfraith, newyddiaduraeth, cynnyrch cyfryngol, cyfryngau hysbysebu, marchnata, addysgu, gwleidyddiaeth, cysylltiadau cyhoeddus, a'r byd cyhoeddi.

# MATHEMATEG



## BYDD CYMHWYSTER YN EICH CEFNOGI I:

Yn TGAU Mathemateg a Rhifedd, byddwch yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gennych o destunau o fewn rhif, algebra, geometreg a data. Byddwch yn dysgu agweddau ariannol allweddol bywyd bob dydd oedolyn, fel ymdrin a slipiau cyflog, biliau a chynilion. Mae dealltwriaeth dda o gynnwys y cymhwyster hwn yn llwyfan perffaith i'r rhai sy'n gobeithio dilyn gyrfa STEM.

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO:

***UNED 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd***-

Yn yr uned hon byddwch yn dysgu gwersi bywyd a fydd yn eich helpu i ddod yn oedolyn hyddysg iawn yn ariannol. Meddyliwch am dermau neu acronymau y gallech foci wedi clywed amdanynt fel 'Yswiriant Gwladol', 'TAW' neu 'AER' - bydd y rhain yn dod yn gyfarwydd i chi. Bydd cyfleoedd a pheryglon ariannol yn cael sylw, a byddwch yn dysgu sut i ddarllen dogfennau pwysig fel slipiau cyflog, biliau a chyfriflenni banc.
Bydd pob math o gyd-destunau'r byd go iawn hefyd yn cael eu haddysgu a'u hasesu, gan wneud yr uned hon yn berthnasol ac yn ddiddorol.

***UNED 2: Digyfrifiannell-***

Byddwch yn archwilio cysyniadau lle na fydd angen eich cyfrifiannell arnoch yn yr uned hon. Byddwch yn dyfnhau eich dealltwriaeth o debygolrwydd ac yn archwilio syniadau newydd o fewn algebra a geometreg, fel graffiau cwadratig a theoremau cylch.

***UNED 3: Caniateir Cyfrifiannell***-

Mae gan yr uned hon y pwysoliad mwyat o'r tair uned, a gallwch gael eich cyfrifiannell wrth eich ochr. Mae llawer o drin data ac ystadegau yn yr uned hon yn ogystal a chysyniadau geometreg newydd fel Theorem Pythagoras a Thrigonometreg.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU:

| UNED 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd | | UNED 2: Digyfrifiannell | | UNED 3: Caniateir Cyfrifiannell | |
|---|---|---|---|---|---|
| Haen Uwch | Haen Sylfaenol | Haen Uwch | Haen Sylfaenol | Haen Uwch | Haen Sylfaenol |
| 1 awr 45 munud<br>80 marc | 1 awr 30 munud<br>65 marc | 1 awr 45 munud<br>80 marc | 1 awr 30 munud<br>65 marc | 2 awr<br>90 marc | 1 awr 45 munud<br>75 marc |
| Pwysoliad: 30% o'r cymhwyster | | Pwysoliad: 30% o'r cymhwyster | | Pwysoliad: 40% o'r cymhwyster | |


## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU:

· Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o wahanol feysydd mathemateg a sut mae'r meysydd hyn yn cysylltu a'i gilydd.
· Byddwch chi'n ehangu ar eich amrediad sgiliau a thechnegau mathemategol ac yn gallu eu defnyddio a'u cymhwyso at amrywiaeth o gyd destunau bywyd go iawn.
· Byddwch yn meithrin sylfaen gref mewn mathemateg ariannol i'ch paratoi ar gyfer bywyd a gwaith.

## GYRFAOEDD O FEWN Y PWNC:

Gall TGAU mewn Mathemateg a Rhifedd arwain at amrywiaeth o lwybrau gyrfa. Mae'r rhain yn cynnwys swyddi fel: dadansoddwr ariannol, rhaglennydd cyfrifiaduron, gwyddonydd meddygol, actiwari, datblygwr meddalwedd, economegydd, dadansoddwr data neu ymchwil, cyfrifydd, athro.

# GWYDDONIAETH DWYRADD



## Cyflwyniad:

Mae gwyddoniaeth yn bwnc allweddol i ddeall y byd o’m cwmpas. Mae Bioleg yn astudiaeth pethau byw, sut maent yn goroesi, cyd-dibynnu ac esblygu. Mae Cemeg yn astudiaeth o ddeunyddiau, eu priodweddau, adeiledd ac adweithiau. Mae Ffiseg yn astudiaeth ffenomenau nad ydym yn gallu gweld megis egni a grymoedd a sut maent yn rheoli ein bywydau pob dydd. Yn ogystal a deall y byd o’n cwmpas byddwch hefyd yn datblygu sgiliau gwyddonol trwy waith ymarferol. Mae’r sgiliau hyn yn gymorth i chi gallu asesu dilysrwydd gwybodaeth a data, eu gwerthuso a dod i gasgliadau ar sail y wybodaeth neu ddata. Mae’r rhain yn sgiliau hanfodol mewn byd sy’n llawn gwybodaeth a ‘newyddion ffug’, hyd yn oed os nad ydych yn symud ymlaen i yrfa wyddonol.

## Amlinelliad o’r cwrs:

Mae’r fanyleb yn cael ei rannu i’r tri phwnc, Bioleg, Cemeg a Ffiseg, gyda 2 uned ym mhob pwnc.
Dysgir 3 uned ym mlwyddyn 10 a 3 ym mlwyddyn 11.
Mae gwaith ymarferol safonol yn rhan o bob uned ac arholiad ymarferol allanol.
2 haen sydd: Haen Uwch A*-E, Haen Sylfaenol C-G. Gellir amrywio’r unedau i bob uned (e.e. Sefyll papur haen uwch Bioleg ond haen sylfaenol Cemeg)
Rydym yn dilyn cwrs Gwyddoniaeth Dwyradd CBAC

## ASESU:

Asesir 3 uned trwy arholiad ysgrifenedig ym Mehefin blwyddyn 10 (45%)

Asesir y 3 uned arall trwy arholiad ysgrifenedig ym Mai blwyddyn 11 (45%)

Mae’r arholiad ymarferol (Gwanwyn blwyddyn 11) gwerth 10%

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:

Mae athrawon yn gosod gwaith cartref bob 3 wythnos, gan fod gan pob disgybl 3 athro, ar gyfartaledd bydd ganddynt un darn o waith yr wythnos.
Disgwylir i ddisgyblion ddarllen dros eu gwaith dosbarth yn dilyn gwersi, a codi unrhyw bryderon neu anawsterau gyda’r athro priodol.

## Sgiliau:

Sgiliau cyfathrebu gwybodaeth yn glir ac yn gryno gan ddefnyddio iaith technolegol.

Sgiliau cynllunio, gwneud mesuriadau manwl, adrodd yn ôl, dod i gasgliad a gallu gwerthuso gwybodaeth

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Peirianneg, trydanwr, meddyg, milfeddyg, nyrs, mydwraig, gofal plant, gwaith amgylcheddol, gweithio gydag anifeiliaid, adeiladwaith, arlwyo, trin gwallt.

# BAGLORIAETH CYMRU

## Cyflwyniad:

Mae Bagloriaeth Cymru yn bwnc lle gall POB disgybl lwyddo ynddo! Caiff amrywiaeth o sgiliau eu dysgu a'u defnyddio o fewn y pwnc i greu busnesau, adeiladu cysylltiadau â'r gymuned a magu hyder.

## Amlinelliad o'r cwrs:

Caiff Bagloriaeth Cymru ei haddysgu mewn tair rhan, sef: Menter a Chyflogadwyedd, Her y Gymuned a'r Prosiect Unigol.

## ASESU:

Asesir a safonir y tair rhan yn fewnol gan yr athrawon sy'n addysgu'r pwnc. Wedi hyn, caiff y marciau eu trosglwyddo i CBAC er mwyn i sampl o waith gael ei farcio'n allanol.
Caiff Her Menter a Chyflogadwyedd a Her y Gymuned eu cwblhau a'u hasesu ym mlwyddyn 10. Bydd y disgyblion wedyn yn cwblhau eu prosiect unigol yn ystod yr hanner tymor olaf ym mlwyddyn 11. Bydd y disgyblion yn derbyn eu graddau yn ystod diwrnod canlyniadau mis Awst ar ôl iddynt orffen ym mlwyddyn 11.

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:

Cwblheir y rhan fwyaf o'r gwaith yn ystod eu gwersi a gânt ddwywaith yr wythnos ym mlwyddyn 10, a bydd disgwyl iddynt weithio ar eu prosiectau unigol yn annibynnol yn ystod eu gwersi rhydd gyda chymorth eu tiwtoriaid.
Byddant hefyd yn cael amser unwaith yr wythnos yn ystod cyfnodau cofrestru i gwblhau rhywfaint o'u gwaith i leihau'r baich.

## Sgiliau:

Byddi di'n datblygu amryw o sgiliau megis:
Sgiliau cyfathrebu, gweithio gydag eraill, rhifedd, TGCh, llythrennedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, sgiliau cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesi, sgiliau entrepreneuraidd, gwaith ymchwil a chyflwyno gwybodaeth.

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Darlithydd, Swyddog Codi Arian Elusennol, Entrepreneur, Gweithiwr Ieuenctid, Gweithiwr Cymuned, Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu, Swyddog Cysylltiadau Rhyngwladol, Rheolwr Digwyddiadau, Masnachwr Stondin Farchnad, Gweithiwr Cymdeithasol, Newyddiadurwr, Darlledwr, Cyflwynydd, Cynorthwyydd Gofal, DJ, Gweinyddydd y Gyflogres, Cyfrifydd, Artist Effeithiau Gweledol, TGCh, Swyddog Desg Gymorth, Cynorthwyydd Syrfëwr Meintiau.



# ADEILADWAITH

## Cyflwyniad:

Mae'r diwydiant adeiladu yn cyflogi dros 3 miliwn o bobl yn y DU ac yn cynnig ystod o gyfleoedd cyflogaeth. Mae hwn yn gwrs ymarferol gyda digon o gyfle i weithio yn y gweithdy yn ogystal a'r ystafell ddosbarth.

Bydd pob disgybl yn anelu i gyflawni cwrs lefel 2 (A*-C) ond os oes angen, mae hyblygrwydd i weithio ar lefel 1 (D-G).

## Amlinelliad o'r cwrs:

Mae'r cwrs CBAC hwn mewn Adeiladwaith a'r Amgylchedd Adeiladu wedi ei gynllunio ar sail yr egwyddor o gynllunio, gwneud ac adolygu.

Mae cyfle i ddygwyr gael blas ar waith o fewn y diwydiant drwy wneud gwaith tebyg yn y dosbarth a hynny mewn llawer o gyd-destunau gwahanol.

## ASESU:

***Uned 1-*** Diogelwch a diogeledd mewn adeiladwaith (arholiad allanol)
***Uned 2—*** Sgiliau adeiladwaith ymarferol (asesiad mewnol)
***Uned 3—***Cynllunio project adeiladwaith (asesiad mewnol)

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:

- Gosodir gwaith cartref pob pythefnos.

## Sgiliau:

• Sgiliau gwneud a dylunio
• TGCh
• Llythrennedd
• Rhifedd
· Datrys Problemau

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Mae gyrfaoedd ar gael ym mhob rhan o'r broses adeiladu yn cynnwys cynllunio a dylunio, adeiladu a chynnal adeiladau. Gall y cwrs fod yn ddefnyddiol i unrhyw ddisgybl sy'n ystyried gyrfa mewn rôl fel crefftwr neu reolwr o fewn y diwydiant adeiladu.



# ADDYSG GORFFOROL

## Cyflwyniad:

Drwy astudio TGAU Addysg Gorfforol bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a gwerthoedd i ddatblygu a chynnal eu perfformiad mewn gweithgareddau corfforol a deall y manteision i iechyd, ffitrwydd a lles. Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth ddamcaniaethol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella perfformiad.

## Amlinelliad o'r cwrs:

2 Uned sydd i'r cwrs; mae'r...

***Uned 1af—Cyflwyniad i addysg gorfforol—***yn cael ei asesu drwy arholiad ysgrifenedig 2 awr sy'n werth 50% o'r cymhwyster. Bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu drwy amrywiaeth o gwestiynau byr ac estynedig.

***Mae'r 2il uned—Y cyfranogwyr gweithredol mewn addysg gorfforol—***yn asesiad di arholiad. Bydd y dysgwyr yn cael eu hasesu mewn 3 gweithgaredd, un unigol, un tîm ac un arall. Bydd rhaglen ffitrwydd bersonol yn gysylltiedig efo un weithgaredd.

## ASESU:

***Uned 1: Cyflwyniad i addysg gorfforol—***arholiad ysgrifenedig 2 awr. (50%)

***Uned 2: Y cyfranogwr gweithredol mewn addysg gorfforol—***asesiad di arholiad. 3 asesiad ymarferol, un tîm, un unigol ac un arall. Bydd creu rhaglen ffitrwydd bersonol yn gysylltiedig efo un weithgaredd.

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:

Caiff gwaith cartref ei osod yn rheolaidd.

Mae disgwyl i ddisgyblion wneud gwaith ymchwil annibynnol i ehangu eu dealltwriaeth o'r gwaith.

## Sgiliau:

Mae dilyn y cwrs TGAU hwn yn gyfle i ddatblygu sgiliau ymarferol yn gysylltiedig efo gweithgaredd corfforol a chwaraeon. Mae hefyd yn datblygu sgiliau gweithio mewn tîm a chyfathrebu.

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Yn ogystal ag annog disgyblion i sefydlu arferion da o ran iechyd, ffitrwydd a lles, gall dilyn y cwrs ac astudio'r pwnc ymhellach arwain at yrfaoedd yn y byd chwaraeon a'r diwydiant hamdden, iechyd a lles.

# ASTUDIAETHAU **BUSNES**

## ***BYDD CYMHWYSTER YN EICH CEFNOGI I:***

Bydd cymhwyster CBAC TGAU Busnes yn datblygu eich dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n gwneud busnes yn llwyddiannus. Byddwch yn meithrin mewnwelediad i'r materion allweddol sy'n wynebu busnesau ac i ffyrdd o ddatrys y rhain. Byddwch yn ymgymryd ag ymchwil i lunio barn resymegol a meddwl yn feirniadol am fusnesau yn eich ardal. Byddwch hefyd yn adfyfyrio ar weithgaredd busnes yng nghyd-destun yr amgylchedd a chynaliadwyedd. Byddwch yn astudio'r effaith y mae busnes yn ei chael ar gymdeithas. Byddwch yn archwilio tueddiadau'r farchnad swyddi ac yn deall gwahanol yrfaoedd busnes a chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael i chi.

## ***BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO:***

***Uned 1 CYFLWYNIAD I'R BYD BUSNES*** - Yn yr uned hon, byddwch yn astudio hanfodion busnes. Byddwch yn archwilio pwrpas gweithgaredd busnes a natur mentrau busnes, gan ddeall y gwahanol fathau o berchnogaeth a nodau busnes. Yn ogystal, byddwch yn dysgu am farchnadoedd a sectorau busnes, a phwysigrwydd y defnyddiwr. Byddwch yn cyfrifo costau a refeniw i wneud penderfyniadau busnes.

***Uned 2 YSTYRIAETHAU ALLWEDDOL BUSNES*** - Yn yr uned hon, byddwch yn ymgymryd ag ymchwil ar fusnes a ddewisir yn eich ardal leol ac yn defnyddio canfyddiadau eich ymchwil i gynhyrchu adroddiad.

***Uned 3 STRATEGAETHAU BUSNES AR GYFER LLWYDDO*** - yn yr uned hon byddwch yn archwilio swyddogaethau busnes allweddol cyllid, marchnata, adnoddau dynol, a chynhyrchu. Yn ogystal, byddwch yn astudio strategaethau ar gyfer twf busnes ac yn deall sut mae ffactorau allanol gwleidyddol, cyfreithiol ac economaidd yn effeithio ar fusnesau.

***Uned 4 CREU BUSNES***- yn yr uned hon, byddwch yn datblygu sgiliau menter. Byddwch yn cynnal ymchwil cynradd ac eilaidd i'r farchnad i gasglu gwybodaeth am gyfle entrepreneuraidd rydych wedi'i nodi. Byddwch yn llunio adroddiad sy'n ymdrin ag agweddau allweddol ar eich cynnig busnes.

## ***SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU:***

Mae Unedau 1 a 3 yn cael eu hasesu drwy arholiadau ysgrifenedig sy'n cynnwys atebion byr ac estynedig, gyda rhai yn seiliedig ar sefyllfaoedd busnes.

Mae Uned 2 a 4 yn asesiadau di-arholiad lle byddwch yn derbyn briff aseiniad i'w gwblhau. Byddwch yn ymgymryd ag ymchwil, yn dadansoddi'r data ac yn darparu barn.

## ***PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU:***

· ***Sgiliau Llythrennedd -*** darllen, ysgrifennu, deall a mynd i'r afael a gwahanol fathau o destun a gwybodaeth.
· Sgiliau Rhifedd - deall, dehongli a gweithio gyda rhifau i ddatrys problemau busnes.
· Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau - dadansoddi gwybodaeth fusnes i wneud penderfyniadau neu lunio barn.
· ***Sgiliau Effeithiolrwydd Personol-*** cyflawni eich nodau drwy reoli eich amser, gosod targedau a dysgu o'ch profiadau.
· ***Creadigrwydd ac arloes***i - meddwl yn greadigol, drwy lunio datrysiadau i broblemau busnes.

Bydd TGAU Busnes yn rhoi amrywiaeth o sgiliau i chi sydd nid yn unig yn werthfawr ar gyfer astudio busnes ymhellach, ond a fydd yn cyfuno ag amrywiaeth o bynciau.

## ***GYRFAOEDD O FEWN Y PWNC:***

Bydd TGAU Busnes yn eich paratoi ar gyfer llawer o yrfaoedd mewn busnes a diwydiant. Mae'r rhain yn cynnwys marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, y gyfraith, cyllid a chyfrifeg, rheoli adnoddau dynol, yn ogystal a gweithgynhyrchu a chynhyrchu.
Mae dealltwriaeth o egwyddorion rheoli yn berthnasol i lawer o rolau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat a bydd yn werthfawr ar gyfer pa bynnag lwybr gyrfa a ddewiswch.

# BUSNES ADWERTHU



## Cyflwyniad:

Oes gennych chi ddiddordeb mewn busnes adwerthu? Mae’r cwrs CBAC galwedigaethol hwn yn cyflwyno dysgwyr i un o sectorau gwaith pwysicaf y DU, gan astudio gwahanol agweddau o fusnes adwerthu ac ymchwilio i ystod o gwmnïau o siopau mawr i fusnesau bach a busnesau ar-lein.
Mae’r cwrs hwn yn fwy ymarferol ei natur na’r TGAU Astudiaethau Busnes sy’n canolbwyntio mwy ar waith theori ac arholiad. Ceir yma gyfle i weithio ar aseiniadau gwaith cwrs, llawer ohonynt yn debyg i asesiadau sydd yn cael eu gwneud yn y byd gwaith.

## Amlinelliad o’r cwrs:

Ceir 4 uned orfodol: 1. Profiad y cwsmer, 2. Busnes adwerthu, 3. gweithredoedd adwerthu a 4. hyrwyddo gweithredu adwerthu.

Mae 2 uned opsiwn; 1. rheoli stoc mewn busnes adwerthu a 2. gwerthu cynnyrch adwerthu.

## ASESU:

***Uned 2***—arholiad 75 munud
***Uned 4***—Tasg gwaith cwrs wedi ei amseru. 6 awr

Asesir y 4 uned arall drwy gyfrwng aseiniadau gwaith cwrs.

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:

- Caiff gwaith cartref ei osod yn rheolaidd.
- Mae disgwyl i ddisgyblion wneud gwaith ymchwil annibynnol fel paratoad ar gyfer yr aseiniadau.

## Sgiliau:

Mae’r cwrs yn meithrin llawer o sgiliau fydd o ddefnydd yn y byd gwaith; sgiliau fel y gallu i weithio ag eraill; cyfathrebu, datrys problemau, meddwl yn greadigol a gweithio’n annibynnol.

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Gallai cwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus arwain dysgwyr at ddechrau gyrfa mewn rôl fel cynorthwyydd gwerthu, cynorthwyydd rheol stoc, cynorthwyydd gweinyddol, neu brentisiaeth.

Fel arall, os ydynt wedi astudio busnes adwerthu a phynciau cysylltiedig ar lefel uwch, gallai dysgwyr chwilio am swydd uwch neu fwy arbenigol gan gynnwys gwerthwr, prynwr, neu reolwr.

# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

## *Cyflwyniad:*

Oes gennych ddiddordeb ymchwilio i gwestiynau sylfaenol fel "Beth yw pwrpas bywyd?". Ydych chi eisiau astudio testunau sy'n esbonio'r amrywiaeth bywyd a chrefydd yn y byd modern? Ydych chi eisiau gwella eich sgiliau meddwl athronyddol a'r gallu i feddwl yn greadigol? Mae Astudiaethau Crefyddol yn eich helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu, dysgu sut i fynegi eich safbwyntiau'n glir a chynyddu eich hunanhyder. Ac wrth gwrs bydd gennych y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i'ch cymryd chi i ddyfodol mewn nifer o yrfaoedd diddorol a chyffrous.

## *Amlinelliad o'r cwrs:*

***Uned 1—***Credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol—Yn yr uned hon bydd disgyblion yn astudio natur cred. Byddant yn astudio Cristnogaeth, un grefydd arall a safbwyntiau anghrefyddol.

***Uned 2—*** Crefydd a pherthnasoedd—deall credoau, dysgediaethau ac arferion crefyddol sy'n ymwneud a pherthnasoedd. Datblygu sgiliau astudiaethau crefyddol.

***Uned 3—***Rolau, hawliau a chyfrifoldebau—Ymysg pethau eraill, bydd cyfle yn yr uned hon i ddatblygu dealltwriaeth o'r gwahanol safbwyntiau am yr hyn sy'n ein gwneud yn ddynol, gofalu am y byd, hawliau anifeiliaid, rhyddid mynegiant crefyddol a moeseg feddygol.

***Uned 4—***Crefydd a hawliau dynol—Pwrpas yr uned hon yw ystyried materion hawliau dynol o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol.

## *ASESU:*

***Uned 1—***Arholiad Ysgrifenedig—75m—30%

***Uned 2 —***Asesiad di-arholiad. 6 awr. 20%

***Uned 3—***Arholiad Ysgrifenedig—75m. 30%

***Uned 4—***Asesiad di-arholiad. 6 awr. 20%

## *Gwaith Cartref ac Annibynnol:*

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod a disgwylir i ddisgyblion ddarllen a gwneud ymchwil annibynnol eu hunain yn ogystal ac adolygu yn rheolaidd.

## *Sgiliau:*

Mae'r cwrs yn gyfle i ddatblygu sgiliau cyfathrebu—ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn greiddiol i'r pwnc.

## *Cysylltiadau Gyrfáu:*

Dysgu a Darlithio, Y Gyfraith, Gwasanaeth Sifil, Adnoddau Dynol, Newyddiadurwr, Y Gyfraith, Gwasanaethau Cymdeithasol, Heddlu, Meddygaeth, Gweinidog, Caplan, Hanesydd, Gwaith Elusen

# CELF A DYLUNIO

## BYDD CYMHWYSTER YN EICH CEFNOGI I:

Bydd cymhwyster CBAC TGAU Celt a Dylunio yn eich cetnogi i:
· archwilio gwaith artistiaid a dylunwyr i helpu i ddatblygu eich talent greadigol eich hun
· datblygu sgiliau creadigol fel y gallwch gynllunio, dyfeisio a dylunio eich gwaith eich hun
· ennill sgiliau ymarferol, gan ddod yn fwyfwy soffistigedig a rheoledig
· adfyfyrio ar eich gwaith eich hunain, ei fireinio a'i werthuso
archwilio amrywiaeth, hunaniaeth a diwylliant

## BETH FYDDAF YN El ASTUDIO:

Dyma'r llwybrau sydd ar gael ar gyfer y cymhwyster TGAU Celf a Dylunio:
· Celf, crefft a dylunio
· Celfyddyd gain
· Cyfathrebu graffig
· Dylunio tecstilau
· Dylunio tri dimensiwn
· Ffotograffiaeth

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU:

***Uned 1 - Portffolio***: Asesiad di-arholiad 60% o'r cymhwyster: 120 marc

Mae'r uned hon wedi'i llunio i'ch galluogi i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o fewn y broses greadigol. Byddwch yn cael eich annog i wneud darganfyddiadau personol a chymryd risgiau creadigol drwy eich ymchwiliadau eich hun. Bydd yn ofynnol i chi gynhyrchu portffolio:
· drwy broject parhaus sy'n dangos datblygiad, mireinio, adfyfyrio a chyflwyniad
· wedi'i osod yn fewnol, mewn ymgynghoriad a'ch athro, yn seiliedig ar thema, cysyniad neu friff dylunio penodol.

***Uned 2 - Aseiniad Wedi'i Osod yn Allanol***: Asesiad Di-arholiad. 40% o'r cymhwyster: 80 mare Mae'r Aseiniad Wedi'i Osod yn Allanol yn cynnwys pum 'syniad mawr' trosfwaol. Rhaid i chi ddewis un syniad mawr a defnyddio ysgogiadau a roddir fel man cychwyn i lywio eich gwaith.
Byddwch yn ymgymryd ag ymchwil cyd-destunol ac ymarferol ac astudiaethau ategol yn ystod cyfnod paratoadol. Bydd hyn yn llywio eich ymateb yn ystod cyfnod 10 awr o waith 'dwys a mawl'

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU:

Byddwch yn dysgu defnyddio ystod eang o gyfryngau, technegau, offer, technolegau a phrosesau digidol yn dibynnu ar ba lwybr rydych chi'n ei ddewis. Byddwch yn datblygu'r sgiliau i greu arteffactau - p'un ai paentio, dylunio ffasiwn, creu cynnwys, ffotograffiaeth, neu fodelau pensaernilol (i enwi ambell bosibilrwydd). Byddwch yn dysgu sut i ddatblygu prosesau creadigol a dulliau gweithio i ddatblygu'r canlyniadau gweledol rydych chi'n eu dewis. Byddwch hefyd yn dysgu ac yn deall am weithio'n annibynnol (gyda chefnogaeth athro) i ddatblygu eich syniadau eich hun a bodloni terfynau amser a bennir ar gyfer eich gwaith. Drwy hyn ol, byddwch yn meithrin ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd mewn celf a dylunio yn ogystal a dealltwriaeth ddyfnach o ddiwylliant a hunaniaeth drwy fynd i'r afael a'ch gwaith datblygol.

## GYRFAOEDD O FEWN Y PWNC:

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen addas ar gyter astudio Celf a Dylunio ar lefel Safon Uwch. Bydd hefyd yn darparu cwrs astudio boddhaus i chi os byddwch yn dewis peidio a symud ymlaen i astudio ymhellach.
Mae'r posibiliadau gyrfa a ddaw drwy astudio celf a dylunio yn helaeth, mae rhai wedi'u rhestru yma:
Hysbysebu, Animeiddiwr, Pensaer, Therapydd Celf, Dylunydd Llyfrau, Cartwnydd, Ceramegydd, Sinematograffydd, Dylunydd Gwisgoedd, Artist Digidol, Dylunydd Arddangosfeydd, Dylunydd Dodrefn, Dylunydd Ffasiwn, Arlunydd Cain, Ymchwilydd Ffilm, Steilydd Bwyd, Arlunydd Graffig, Dylunydd Gemau, Cynllunydd Tai, Darlunydd, Dylunydd Gemwaith, Dylunydd Dillad Gwau, Pensaer Tirwedd, Dylunydd Goleuo, Artist Coluro, Dylunydd Meddygol, Gwneuthurwr Modelau, Murlunydd, Dylunydd Cynnyrch, Ffotograffydd, Crochenydd, Gwneuthurwr Pypedau, Gwneuthurwr Printiau, Dylunydd Cynhyrchu, Cerflunydd, Gof Arian, Artist Effeithiau Arbennig, Artist Gwydr Lliw, Artist Tatw, Athro, Dylunydd Theatr, Cyfarwyddwr Teledu, Dylunydd Tecstilau, Teipograffydd, Dylunydd Trefol, Artist Fideo.



# CERDD

## BYDD CYMHWYSTER YN EICH CEFNOGI I:

Bydd cymhwyster CBAC TGAU Cerddoriaeth yn eich cefnogi i:

· Ddatblygu sgiliau perfformio
· Datblygu sgiliau creadigol
· Deall ffurfiau, arddulliau a genres cerddorol
· Gwerthfawrogi sut i gyfathrebu'n gerddorol
· Archwilio cerddoriaeth a grewyd ac a berfformir gan bobl eraill i helpu i ddatblygu eich doniau eich hun
· Adfyfyrio ar eich gwaith eich hunain, ei fireinio a'i werthuso
· Archwilio amrywiaeth, hunaniaeth a diwylliant

## BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO:

Mae'r cymhwyster TGAU Cerddoriaeth yn seiliedig ar astudio a chymhwyso'r elfennau cerddoriaeth a restrir isod:

· Dynameg
· Ffurf ac adeiledd
· Harmoni
· Alaw a thraw
· Technegau perfformio/cynaniad
· Tempo, rhythm a mesur
· Gwead
· Cyweiredd
· Soniaredd ac ansawdd

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU:

***Uned 1 - Perfformio*** Asesiad di-arholiad-32.5% o'r cymhwyster: 78 marc

O leiat 2 ddarn, 4-6 munud Unawd a/neu ensemble
Byddwch yn dewis darnau yr hoffech eu perfformio, yn unigol neu fel rhan o ensemble.

***Uned 2 - Cyfansoddi-*** Asesiad di-arholiad 32.5% o'r cymhwyster: 78 marc

2 gyfansoddiad, cyfanswm o 3-6 munud
Byddwch yn cyfansoddi eich cerddoriaeth eich hun mewn arddull a ddewiswch, uni friff a osodir ac un i'ch briff eich hunain. Byddwch hefyd yn cyflwyno log adfyfyriol wedi'i asesu.

***Uned 3 - Gwerthuso-*** Arholiad digidol (lawr 30m) 35% o'r cymhwyster: 84 marc

Bydd cwestiynau'r arholiad yn seiliedig ar ddarnau o gerddoriaeth y byddwch yn gallu gwrando arnynt, a bydd disgwyl i chi wybod a deall yr elfennau cerddoriaeth a sut maent yn cael eu defnyddio. Byddwch yn astudio 2 ddarn o waith gosod yn fanwl.

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU:

***Archwilio***: byddwch yn cael y cyfle i archwilio amrywiol arddulliau a genres cerddorol sy'n gysylltiedig a gwahanol ddiwylliannau yng Nghymru a'r byd ac i ddeall sut cafodd y rhain eu creu i gynhyrchu'r bwriad arfaethedig. Byddwch yn gallu defnyddio'r syniadau hyn i greu a datblygu eich cerddoriaeth eich hun. Gallech hefyd gyfansoddi drwy archwilio syniadau wrth greu'n fyrfyfyr

***Ymateb ac adfyfyrio***: byddwch yn gallu gwerthuso a mireinio eich gwaith drwy adfyfyrio a chael adborth gan eraill, i greu cynnyrch gorffenedig llwyddiannus

***Creu***: byddwch yn creu cerddoriaeth wreiddiol eich hun mewn arddull o'ch dewis, a darn i fodloni briff a fydd wedi'i bennu gan CBAC gan ddefnyddio'r technegau rydych wedi'u harchwilio ac adfyfyrio arnynt.

## GYRFAOEDD O FEWN Y PWNC:

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio Cerddoriaeth ar lefel Safon Uwch. Bydd hefyd yn darparu cwrs astudio boddhaus a gwerthfawr i chi os nad ydych yn dewis mynd ymlaen i astudio'r pwnc hwn ymhellach.
Yn y dyfodol, Creadigrwydd fydd un o'r sgiliau pwysicaf y bydd y galw mwyaf amdano yn y gwaith (Fforwm Economaidd y Byd). Pan holwyd arweinwyr busnes ledled y byd, Creadigrwydd oedd eu dewis nhw fel y gallu pwysicaf yn y gweithle i helpu eu busnesau i oroesi a thyfu. Mae hyn yn golygu bod astudio pynciau creadigol, fel Cerddoriaeth, yn dod yn fwyffwy pwysig a pherthnasol i bobl ifanc er mwyn rhoi'r cyfle i chi lwyddo - beth bynnag yw eich uchelgeisiau! Ar yr un pryd, byddwch yn dod ar draws llawer o gyfleoedd i ddatblygu a gwella eich llesiant personol yn annibynnol ac fel rhan o gymuned ehangach.
Yn bwysig, bydd astudio cerddoriaeth yn datblygu llawer o sgiliau trosglwyddadwy gan gynnwys cyfathrebu, sgiliau cyflwyno, gweithio mewn tîm, arwain, ffocysu, mireinio, creadigrwydd a hunanhyder.



# CYFRYNGAU

## Cyflwyniad:

Oes gennych chi ddiddordeb yn y Cyfryngau? Ydych chi erioed wedi meddwl sut mae rhaglenni teledu, ffilmiau, cylchgronau, gemau cyfrifiadur ayb yn cael eu cynhyrchu, neu eisiau'r cyfle i gynhyrchu pethau eich hunain? Bydd cyfle i astudio amrywiaeth o wahanol enghreifftiau o'r cyfryngau i ddysgu'r pethau hyn ac i ddatblygu eich dealltwriaeth er mwyn gallu cynhyrchu gwaith ymarfer eich hun.

## Amlinelliad o'r cwrs:

***Uned 1 (arholiad):***

Adran A: Cynrychioliadau – hysbysebu, gemau fideo a phapurau newydd
Adran B: Cerddoriaeth

***Uned 2: (arholiad):***

Adran A: Cymru ar y Teledu
Adran B: Ffilmiau Hollywood Cyfoes

***Uned 3 (gwaith cwrs):***

Creu cynnyrch e.e. gwefan, cylchgrawn, darn fideo.

## ASESU:

***Uned 1: Ymchwilio i'r Cyfryngau-*** Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud 30% o'r cymhwyster (Haf 2020).
***Uned 2: Deall Teledu a Ffilm-***Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud 30% o'r cymhwyster (Haf 2020).
***Uned 3: Creu Cyfryngau-*** Asesu di-arholiad 40% o'r cymhwyster (diwedd Blwyddyn 10 / dechrau Blwyddyn 11).

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:

Bydd gwaith cartref amrywiol—ymchwilio i destunau cyfryngau e.e. gwylio rhaglen deledu, gwrando ar sioe radio; yn ogystal a chwblhau tasgau yn seiliedig ar waith yn y dosbarth. Cyfleoedd ar gyfer datblygu dealltwriaeth yn annibynnol.

## Sgiliau:

Llythrennedd, TGCH, cyfathrebu, ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, ymchwil, dadansoddi.

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Newyddiadurwr, dyluniwr graffeg, person camera, person sain, cyfarwyddwr, cynhyrchydd, golygydd, dyluniwr gemau, hysbysebu a marchnata.

# DAEARYDDIAETH



## *BYDD CYMHWYSTER YN EICH CEFNOGI I:*

Daearyddiaeth yw'r astudiaeth o leoedd a'r berthynas rhwng pobl a'u hamgylcheddau. Mae daearyddwyr yn archwilio priodweddau ffisegol wyneb y ddaear a'r cymdeithasau dynol wedi'u gwasgaru ar ei draws.
Beth allai fod yn bwysicach ar gyfer ein dyfodol?

## *BETH FYDDAF YN El ASTUDIO:*

***TEITL/UNED 1 - Ein Byd Ffisegol a Dynol***.
Yma byddwch yn astudio:
· Dalgylch afonydd ac afonydd.
· Morluniau sy'n newid
· Mudo
· Newid aneddiadau

***TEITL/UNED 3 - Ein Byd Dynamig ac Amrywiol.***
· Daearyddiaeth anghydraddoldeb
· Uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ein tywydd
· Tywydd garw
· Newid hinsawdd parhaus.
· Rheoli heriau byd-eang.

## *SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU:*

***ARHOLIAD 1 - Uned 1 Ein Byd Ffisegol a Dynol.*** Mae hyn werth 30% o'r cymhwyster ac mae'n arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud.
***ARHOLIAD 2 - Uned 3 Ein Byd Dynamig ac Amrywiol.*** Mae hyn werth 30% o'r cymhwyster ac mae'n arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud.
***Asesiadau Di-arholiad - Mae 2 dasg Asesiad Di arholiad:*** Uned 2 Datblygu Sgiliau Gwaith Maes sy'n werth 25% o'r cymhwyster. Byddwch yn cynnal ymweliad gwaith maes yn seiliedig ar destun fel, newid dros amser neu'r amgylchedd, ac yn ymchwilio i hyn mewn lleoliad a ddewisir, gan ysgrifennu ymholiad gwaith maes a fydd yn cael ei gyflwyno i CBAC.
***Uned 4 Datrysiadau Cynaliadwy-***sy'n werth 15% o'r cymhwyster
Byddwch yn derbyn pecyn adnoddau ar fater daearyddol a byddwch hefyd yn darllen am gefndir ar y mater. Yna byddwch yn ysgrifennu adroddiad yn seiliedig ar fater byd go iawn mewn tasg gwneud penderfyniadau, gan adrodd ar ba mor gynaliadwy y mae'r gwahanol opsiynau yn debygol o fod.

## *PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU:*

· Mae daearyddiaeth bob amser yn y newyddion. Byddwch yn datblygu sgiliau i ddehongli, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth i wneud penderfyniadau am faterion a phroblemau sy'n effeithio ar bobl a'r amgylchedd.
· Y gallu i gasglu, prosesu, dadansoddi a deall data ansoddol a meintiol a'i gyfleu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
· Datblygu dadl resymegol a'i chyfleu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
· Sgiliau gwaith tîm ac arwain.
· Mae astudio daearyddiaeth yn eich caniatau i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau bywyd personol, gan gynnwys rheoli amser, delio ag ansicrwydd, hyblygrwydd, creadigrwydd, datrys problemau a hunanhyder.

## *GYRFAOEDD O FEWN Y PWNC:*

Mae cyflogwyr yn edrych yn benodol am y sgiliau trosglwyddadwy a ddatblygir drwy astudio daearyddiaeth. Mae yna gyfoeth o swyddi y gall daearyddwyr eu gwneud sy'n rhychwantu bron pob sector! Mae gan y rhan fwyaf o swyddi elfen o ddaearyddiaeth ynddynt, boed yn feddyg sy'n ymchwilio i ledaeniad clefyd neu beiriannydd sy'n dylunio cynhyrchion i ymdopi a llai o alw am blastig.

*"Mae astudio daearyddiaeth yn ymwneud a mwy na dim ond dysgu lleoedd ar fap ar gof. Mae'n ymwneud a deall cymhlethdod ein byd, gan werthfawrogi amrywiaeth y diwylliannau sy'n bodoli ar draws cyfandiroedd. Ac yn y pen draw, mae'n ymwneud a defnyddio'r holl wybodaeth honno i helpu pontio gagendorau a dod a phobl ynghyd."* **Barak Obama.**

# DRAMA



## *BYDD CYMHWYSTER YN EICH CEFNOGI I:*

· archwilio dramau sydd wedi'u creu a'u perfformio gan bobl eraill a datblygu eu doniau drama eu hunain
· meithrin dealltwriaeth o amrywiaeth o dechnegau, ffurfiau, arddulliau, genres, a chyd-destunau
· adfyfyrio ar eich gwaith eich hunain, ei fireinio a'i werthuso
· archwilio amrywiaeth, hunaniaeth a diwylliant
· darganfod ac archwilio eich sgiliau perfformio a/neu ddylunio

## *BETH FYDDAF YN El ASTUDIO:*

Bydd y cymhwyster TGAU Drama yn eich galluogi i archwilio ac ymateb i ysgogiadau, creu ac adfyfyrio ar eich gwaith eich hun, datblygu eich creadigrwydd eich hun a mynd i'r afael a llawer o wahanol arddulliau theatr.
Byddwch hefyd yn cael cyfle i feithrin eich dealltwriaeth o actio, cyfarwyddo, dylunio a theatr dechnegol.

## *SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU:*

***Uned - 1 Dyfeisio Theatr*** Asesiad di-arholiad ymarferol 40% o'r cymhwyster: 96 marc

Un darn dyfeisiedig mewn ymateb i ddewis o ysgogiadau, wedi'i berfformio mewn grwp o rhwng dau a phum actor a hyd at bedwar dylunydd.

***Uned 2 - Perfformiad o Destun*** Asesiad di-arholiad ymarferol 30% o'r cymhwyster: 72 marc

Perfformio un darn o destun o'ch dewis. Asesir gan Arholwr Ymweld ac fe'i perfformir mewn grwp o rhwng dau a phedwar actor a hyd at ddau ddylunydd.

***Uned 3 - Dehongli Theatr:*** Arholiad digidol ar-sgr1n (2 awr) 30% o'r cymhwyster: 72 marc

Mae'r arholiad wedi'i rannu'n ddwy adran: Adran A ac Adran B. Bydd Adran A yn gofyn cwestiynau yn seiliedig ar destun gosod y byddwch wedi'i astudio mewn gwersi. Bydd Adran B yn gofyn cwestiynau yn seiliedig ar ddarn o gynhyrchiad theatr fyw o un o bedwar genre gosod, y byddwch yn gallu ei wylio yn yr arholiad. Y genres yw Theatr Gerdd, Naturiolaeth, Theatr mewn Addysg neu Theatr Gorfforol.

## *PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU:*

***Archwilio:*** Cewch gyfle i archwilio, profi a dehongli llawer o wahanol arddulliau a genres theatr sy'n gysylltiedig a gwahanol ddiwylliannau yng Nghymru a'r byd. Byddwch yn gallu adeiladu ar y syniadau hyn i greu a datblygu eich theatr eich hun wrth ddyfeisio ac wrth weithio o sgript.


***Ymateb ac adfyfyrio:*** Byddwch yn gallu traethu, gwerthuso a mireinio eich gwaith drwy adfyfyrio a chael adborth gan eraill, i greu cynnyrch gorffenedig cyffrous, llawn dychymyg a llwyddiannus. Byddwch hefyd yn gallu gwerthuso a dadansoddi gwaith eraill i lywio eich creadigrwydd eich hun.

***Creu:*** yn Uned 1, byddwch yn dyfeisio'ch darn theatr gwreiddiol eich hun mewn ymateb i ysgogiad ac mewn arddull/genre o'ch dewis, o fewn grwp o'ch cyfoedion. Yn Uned 2, byddwch yn gweithio o destun o'ch dewis, hefyd mewn arddull o'ch dewis.

## *GYRFAOEDD O FEWN Y PWNC:*

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu sylfaen ragorol ar gyfer astudio Drama ar lefel Safon Uwch. Bydd hefyd yn darparu cwrs astudio boddhaus a gwerthfawr i chi os ydych chi'n dewis peidio astudio ymhellach.
Yn bwysig, bydd astudio Drama yn datblygu llawer o sgiliau trosglwyddadwy gan gynnwys cyfathrebu, sgiliau cyflwyno, gweithio mewn tlm, arwain, ffocysu, mireinio, creadigrwydd a hunanhyder. Mae'r opsiynau gyrfa sy'n deillio o astudio Drama yn helaeth, ond dyma rai o'r opsiynau hynny:
Actor, Therapydd Drama, Recriwtio, Artist Colur Golygfaol, Swyddog Gweithredol Marchnata, Cyfarwyddwr Castio, Cynhyrchydd, Rheoli Digwyddiadau, Awdur Sgriptiau, Rheolwr Llwyfan, Athro ysgol gynradd, Darlithydd Prifysgol, Technegydd Colur a Phrostheteg, Athro, Rheolwr Celfyddydau Cymunedol, Dramodydd, Dylunydd Goleuadau, Dylunydd Gwisgoedd, Arweinydd Gweithdai, Technegydd Sain, Artist Cynorthwyol Stiwdio, Asiant Theatr, Gweinyddwr Celfyddydau, Rheolwr Theatr, Dramatwrg, Cyfarwyddwr Theatr/ Teledu, Criw Darlledu, Ymchwilydd.

# DYLUNIO CYNNYRCH



## Cyflwyniad:

Oes gennych ddiddordeb mewn dilyn gyrfa mewn Dylunio Cynnyrch? Ydych chi'n mwynhau dylunio a chreu cynhyrchion? Oherwydd y datblygiadau mewn technoleg mae'r pwnc yma'n newid yn ddyddiol. Mae 20% o weithlu ardal Wrecsam yn gweithio yn y maes gweithgynhyrchu. Canran sydd yn llawer uwch na gweddill Prydain. Trwy astudio TGAU Dylunio a Thechnoleg, bydd dysgwyr yn barod i gymryd rhan yn hyderus a llwyddiannus mewn byd sy'n fwyfwy technolegol.

## Amlinelliad o'r cwrs:

Mae'r cwrs CBAC yma yn cynnig y cyfle i ddisgyblion ddylunio a gwneud cynhyrchion allan o bren, metel, plastigion a cherdyn. Mae'r cwrs yn cynnwys elfennau defnyddiau gwrthiannol, peirianneg, electroneg a dylunio graffigol ac yn cynnig cyfle unigryw yn y cwricwlwm i ddysgwyr adnabod a datrys problemau go iawn trwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau

## ASESU:

***UNED 1 (50%) –*** Arholiad – Technoleg yr 21ain. (2 awr)

***UNED 2 (50%) –*** Gwaith Cwrs – Tasg Dylunio a Gwneud (35 awr)

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:

Gosodir gwaith cartref bob pythefnos.

Mae disgwyl i ddisgyblion weithio ar eu gwaith ymarferol yn eu hamser rhydd.

## Sgiliau:

Sgiliau gwneud a dylunio, TGCh, Llythrennedd, Rhifedd, Datrys Problemau, CAD –CAM.

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Mae gyrfaoedd ar gael mewn sawl maes gan gynnwys gweithgynhyrchu, pensaernïaeth, dylunio graffigol, dylunydd digidol a pheirianneg.

# FFRANGEG
# & SBAENEG

**BYDD CYMHWYSTER YN EICH CEFNOGI I:**

Mae TGAU CBAC mewn Ffrangeg/Sbaeneg wedi'u cynllunio i'ch galluogi i ddefnyddio ieithoedd mewn ffyrdd ystyrlon. Byddwch yn dysgu sut i ddeall yr iaith a chyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn lleoliadau realistig. Byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliant a chymdeithas y gwledydd a'r cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad ac yn gwneud cysylltiadau a'ch iaith a'ch diwylliant eich hun.

**BETH FYDDAF YN EI ASTUDIO:**

Mae 4 uned i'r cwrs. Asesir dwy mewn arholiadau yn y flwyddyn astudio olaf. Cwblheir y ddwy uned arall fel asesiadau di-arholiad yn eich ystafell ddosbarth, hefyd yn y flwyddyn astudio olaf. Byddwch yn dysgu iaith ddefnyddiol y gallech ei defnyddio mewn sefyllfaoedd sy'n ymwneud a hamdden a llesiant, teithio ac astudio neu weithio.

**SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU:**

***UNED 1 - Llafaredd***- Mae Uned 1 yn asesiad di-arholiad o siarad a gwrando a bydd yn cael ei gynnal gan eich athro. Yn gyntaf, byddwch yn darllen brawddeg fer yn uchel i ddangos eich dealltwriaeth o ynganu yn Ffrangeg/Sbaeneg. Yna byddwch yn cymryd rhan mewn chwarae rôl. Ar ôl hyn, byddwch yn rhoi cyflwyniad byr un munud y byddwch wedi'i baratoi ymlaen llaw ac yn cael trafodaeth fer gyda'ch athro am eich cyflwyniad. Yn olaf, byddwch yn cymryd rhan mewn sgwrs fer gyda'ch athro. Mae'r uned hon werth 30% o'r cymhwyster.

***UNED 2 - Darllen ac Ysgrifennu***-Mae Uned 2 hefyd yn asesiad di-arholiad y byddwch yn ei gwblhau yn eich ystafell ddosbarth. Gyda'ch cyd ddisgyblion, byddwch yn astudio darn byr o waith (naill ai nofel graffig, stori fer, sgript ffilm neu nofel) yn Ffrangeg/Sbaeneg. Yna byddwch yn ysgrifennu ymateb ysgrifenedig (hyd at 200 gair) yn Ffrangeg/Sbaeneg am y stori fer/nofel graffig neu sgript ffilm rydych chi wedi'i astudio. Mae'r uned hon werth 15% o'r cymhwyster.

***Uned 3 - Gwrando-*** Mae Uned 3 yn arholiad gwrando gwerth 20% o'r cymhwyster. Byddwch yn gwrando ar amrywiaeth o siaradwyr yn Ffrangeg/Sbaeneg ac yn dangos eich dealltwriaeth o'r hyn rydych wedi'i glywed, er enghraifft, drwy ateb cwestiynau amlddewis neu gwestiynau yn Gymraeg/Saesneg.

***Uned 4 - Darllen ac Ysgrifennu-*** Mae Uned 4 yn arholiad ysgrifenedig gwerth 35% o'r cymhwyster. Ar gyfer yr asesiad hwn, byddwch yn darllen testunau yn Ffrangeg/Sbaeneg ac yn ateb cwestiynau amdanynt yn Gymraeg Bydd gofyn i chi hefyd gwblhau cyfieithiad i'r Gymraeg. Yn olaf, byddwch yn gallu dangos eich sgiliau iaith ysgrifenedig drwy ysgrifennu hyd at 120 o eiriau yn Ffrangeg/Sbaeneg o ddewis o 3 chwestiwn.

**PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU:**

- Byddwch yn dysgu sut i gyfathrebu'n glir ac yn gywir ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Byddwch yn datblygu eich dealltwriaeth o'r iaith drwy ddarllen a gwrando ar eitemau yn Ffrangeg/Sbaeneg.
- Byddwch yn dysgu sut i gyfrannu at drafodaethau a sgyrsiau.
- Byddwch yn datblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliant a chymdeithas y gwledydd a'r cymunedau lle mae Ffrangeg/Sbaeneg yn cael ei siarad.
- Byddwch yn gwneud cysylltiadau a'ch iaith eich hun.

**GYRFAOEDD O FEWN Y PWNC:**

Gall TGAU mewn Ffrangeg/Sbaeneg agor byd o gyfleoedd i chi. Mae ystod eang o lwybrau gyrfa y gallech eu dilyn gyda TGAU mewn ieithoedd, gan gynnwys yn y diwydiant twristiaeth fwy traddodiadol gysylltiedig, y lluoedd arfog, gwasanaethau iaith megis cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, addysgu a gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, y fantais fawr o gael sgiliau mewn iaith arall yw y gallant eich cynorthwyo drwy gydol eich bywyd a'ch gyrfa; yn ddefnyddiol nid yn unig ar gyfer teithio, gwneud ffrindiau a datblygu gwerthfawrogiad a dealltwriaeth gyffredinol o hunaniaeth a diwylliant pobl eraill, ond hefyd o bosibl yn ddefnyddiol ar gyfer UNRHYW yrfa a ddewisir. Mae cymhwyster mewn Ieithoedd Rhyngwladol yn dangos eich bod yn gyfathrebwr da, yn barod i ddysgu, addasu a chamu allan o'ch "man cysurus" - yn ddymunol iawn i unrhyw ddarpar gyflogwr. Efallai y bydd hefyd o ddiddordeb i chi wybod yn y byd busnes byd-eang sydd ohoni, mae'n hysbys bod gweithwyr sydd a sgiliau mewn ieithoedd rhyngwladol yn denu cyflogau uwch! Beth sydd ddim i'w hoffi?

# FFASIWN A THECSTILIAU

## Cyflwyniad:

Mae'r cymhwyster TGAU CBAC hwn mewn Dylunio a Thechnoleg yn cynnig cyfle unigryw yn y cwricwlwm i ddysgwyr adnabod a datrys problemau go iawn drwy ddylunio a gwneud cynhyrchion ffasiwn a thecstiliau. Drwy astudio TGAU Dylunio a Thechnoleg, bydd dysgwyr yn barod i gymryd rhan yn hyderus a llwyddiannus mewn byd sy'n fwyfwy technolegol; a byddant yn ymwybodol o'r hyn sy'n dylanwadu'n ehangach ar ddylunio a thechnoleg, ac yn dysgu gan y dylanwadau hynny. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau hanesyddol, cymdeithasol/diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mi fydd y disgyblion yn cael y cyfle i ddilyn i greu amrywiaeth o eitemau ac ategolion ffasiwn a chartref ag i ehangu ei sgiliau gwnio yn bellach i greu eitem hunanddewisiadwy ym mlwyddyn 11.

## Amlinelliad o'r cwrs:

***Uned 1 (Theori ag arholiad)***

Bydd pob dysgwr yn astudio pedwar maes cynnwys: 1. Gwybodaeth a dealltwriaeth craidd 2. Gwybodaeth a dealltwriaeth manwl ar gyfer ffasiwn a thecstilau 3. Sgiliau craidd 4. Sgiliau manwl ar gyfer ffasiwn a thecstilau.

***Uned 2 (Asesiad o dan reolaeth)***

Ymchwilio, dylunio a chreu eitem ffasiwn neu decstil o dan reolaeth ag amser penodol.

## ASESU:

· Cwrs llinol
· Asesiadau mewnol: Prosiect yn ystod blwyddyn 11 sy'n gyfwerth a 50% o'r gradd terfynol.
· Arholiad Allanol ym mlwyddyn 11 sy'n gyfwerth a 50% o'r radd derfynol.

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:

· Mi fydd gwaith cartref yn cael ei osod yn wythnosol.
· Disgwylir i ddisgyblion weithio'n annibynnol i ymchwilio i'w asesiadau.
· Disgwylir i ddisgyblion i fynychu sesiynnau ychwanegol amser cinio neu ar ôl ysgol.

## Sgiliau:

Deall bod arferion dylunio a thechnoleg yn digwydd mewn cyd-destunau; adnabod a deall anghenion defnyddiwr; ysgrifennu briff a manylebau dylunio; ymchwilio i heriau; datblygu syniadau; defnyddio strategaethau dylunio; cyfathrebu syniadau dylunio; datblygu prototeip; gwneud penderfyniadau.

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Technegydd ansawdd, gwniadur hetiau, dylunydd ffasiwn, dylunydd mewnol, dylunudd tecstiliau, dylunydd ategolion personol/ cartref, dylunydd patrymau i ffasiwn, peiriannydd gwnio, prynnwr tecstiliau/ ffasiwn, dylunydd gwisgoedd, ymgynghorydd delweddau.

# GOFAL PLANT A
# IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

## Cyflwyniad:

Mae TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i ddysgwyr am ddatblygiad unigolion, a sut i ofalu amdanynt, drwy gydol cylchred bywyd o adeg cenhedlu i oedolaeth. Mae dysgwyr yn cael y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o ddylanwadau ar dwf, datblygiad, ymddygiad a llesiant dynol. Byddant hefyd yn meithrin dealltwriaeth o anghenion cymdeithasol, corfforol, emosiynol a diwylliannol pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, ac yn cydnabod bod gan bawb eu galluoedd a'u hanghenion unigryw eu hunain. Mae hwn yn gwrs TGAU sengl ond bydd opsiwn i rai gwblhau'r cwrs dwyradd ac ennill dwy radd TGAU ar ei ddiwedd.

## Amlinelliad o'r cwrs:

***Asesiadau Allanol:***

2 Arholiad Allanol 90 munud ar destunau sy'n ymwneud a twf, datblygiad a llesiant dynol. Bydd un yn cael ei sefyll ar ddiwedd blwyddyn 10 ac un ar ddiwedd blwyddyn 11.

***Asesiadau Mewnol:***

2 uned o waith cwrs ar destun sy'n ymwneud a hybu a chynnal iechyd a llesiant.
Bwrdd Arholi: CBAC

## ASESU:

***Asesiadau mewnol:*** 2 brosiect yn sy'n gyfwerth a 60% o'r radd derfynol. Un ym mlwyddyn 10 ac un yn 11.

***Arholiad Allanol:*** un ym mlwyddyn 10 ac un ym mlwyddyn 11 sy'n gyfwerth a 40% o'r radd derfynol.

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:

Mi fydd gwaith cartref yn cael ei osod yn wythnosol.

Disgwylir i ddisgyblion weithio'n annibynnol i ymchwilio i'w asesiadau.

## Sgiliau:

Drwy astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant, bydd dysgwyr yn gallu datblygu a chymhwyso sgiliau sy'n berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gan gynnwys defnyddio a dehongli data, datblygu ymwybyddiaeth o'r llwybrau gyrfa sydd ar gael yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Gofal Plant, Nyrs arbenigol: Plant/ Gofal meddwl/ Anawsterau dysgu/ ymwelydd iechyd, Gofalwr Cymdeithasol, Athro, Nani, Cynhorthwyr gofal iechyd, Gweithwr cymdeithasol, Nyrs feithrin.

# GWYDDONIAETH
# TRIPHLYG

## Cyflwyniad:

Mae gwyddoniaeth yn bwnc allweddol i ddeall y bod o'm cwmpas. Mae Bioleg yn astudiaeth pethau byw, sut maent yn goroesi, cyd-dibynnu ac esblygu. Mae Cemeg yn astudiaeth o ddeunyddiau, eu priodweddau, adeiledd ac adweithiau. Mae Ffiseg yn astudiaeth ffenomenau nid ydynt yn gallu gweld megis egni a grymoedd a sut maent yn rheoli ein bywydau pob dydd. Yn ogystal a deall y byd o'm cwmpas byddech hefyd yn datblygu sgiliau gwyddonol trwy waith ymarferol. Mae'r sgiliau hyn yn gymorth i chi gallu asesu dilysrwydd gwybodaeth a data, eu gwerthuso a dod i gasgliadau ar sail y gwybodaeth neu ddata. Mae'r cwrs Gwyddoniaeth Triphlyg yn adeiladu ar wybodaeth cynnwys y cwrs Gwyddoniaeth Dwyradd ac yn sail mwy cadarn (ond nid angenrheidiol) i gyrsiau gwyddonol uwch megis Lefel A.

## Amlinelliad o'r cwrs:

Bydd disgyblion yn astudio 3 TGAU sef Bioleg, Cemeg a Ffiseg, gyda 2 uned ym mhob pwnc. Dysgir 3 uned ym mlwyddyn 10 a 3 ym mlwyddyn 11.

Mae gwaith ymarferol safonol yn rhan o bob uned ac arholiad ymarferol allanol.

2 haen sydd i bob TGAU: Haen Uwch A*-E, Haen Sylfaenol C-G. Gellir amrywio'r unedau i bob uned (e.e. Sefyll papur haen uwch Bioleg ond haen sylfaenol Cemeg)

Rydym yn dilyn cyrsiau TGAU Bioleg, TGAU Cemeg a TGAU Ffiseg CBAC.

## ASESU:

Asesir 1 uned trwy arholiad ysgrifenedig ym Mehefin blwyddyn 10 (45%)

Asesir yr uned arall trwy arholiad ysgrifenedig ym Mai blwyddyn 11 (45%)

Mae'r arholiad ymarferol (Gwanwyn blwyddyn 11) gwerth 10%

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:

Mae athrawon yn gosod gwaith cartref bob pythefnos ym mhob pwnc.

Disgwylir i ddisgyblion darllen dros eu gwaith dosbarth yn dilyn gwersi, ac yn codi unrhyw pryderon neu anawsterau gyda'r athro priodol.

## Sgiliau:

Sgiliau cyfathrebu gwybodaeth yn glir ac yn gryno gan ddefnyddio iaith technolegol.

Sgiliau cynllunio, gwneud mesuriadau manwl, adrodd yn ôl, dod i gasgliad a gallu gwerthuso gwybodaeth

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Peirianneg, trydanwr, meddyg, milfeddyg, nyrs, mydwraig, gofal plant, gwaith amgylcheddol, gweithio gydag anifeiliaid, adeiladwaith, arlwyo, trin gwallt.



# HANES

## BYDD CYMHWYSTER YN EICH CEFNOGI I:

Rydym i gyd yn byw mewn byd rhyng-gysylltiedig sy'n newid yn gyson. Mae deall digwyddiadau hanesyddol yn hanfodol i wneud synnwyr o ddigwyddiadau cyfredol. Mae TGAU Hanes yn ein cynorthwyo i gyflawni hyn drwy archwilio digwyddiadau a ffigurau arwyddocaol o'r gorffennol a'u dylanwad ar ein presennol.

## BETH FYDDAF YN El ASTUDIO:

Mae'r cwrs TGAU Hanes yn eich caniatau i archwilio detholiad eang ac amrywiol o destunau o wahanol gyfnodau a chymdeithasau hanesyddol. Gall myfyrwyr archwilio, dadansoddi ac asesu ffigurau a digwyddiadau hanesyddol o'r amrywiaeth eang o ddewisiadau sydd ar gael. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys:

***UNED 1: Astudiaeth fanwl o hanes Cymru***- Byddwch yn astudio un o chwe thestun hanesyddol er mwyn cynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi cipolwg i chi ar ddatblygiad Cymru ar adeg benodol mewn hanes.

***UNED 2: Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop a/neu'r Byd***- Byddwch yn astudio un o chwe thestun hanesyddol i gynnal astudiaeth fanwl a fydd yn rhoi dealltwriaeth i chi o fater yn hanes Ewrop a/neu'r byd.

***UNED 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd***- Byddwch yn astudio un o chwe thestun hanesyddol i gynnal astudiaeth eang o gyfnod hanesyddol estynedig.

***UNED 4: Cymdeithas sy'n newid-*** Byddwch yn astudio digwyddiadau a thema benodol o fewn cyfnod parhaus o tua 75-100 mlynedd o hanes.

## SUT BYDDAF YN CAEL FY ASESU:

***UNED 1:*** Arholiad ysgrifenedig: 1 awr l'W GADARNHAU
30% o'r cymhwyster

***UNED 2:*** Asesiad di-arholiad wedi'i farcio gan CBAC 20% o'r cymhwyster

***UNED 3:*** Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
30% o'r cymhwyster

***UNED 4:*** Asesiad di-arholiad: 4 awr
Wedi'i farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC
20% o'r cymhwyster

## PA SGILIAU FYDDAF YN EU DATBLYGU:

TGAU Hanes yw'r pwnc perffaith i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer cyflogaeth neu astudiaeth bellach, gan gynnwys:

- Dod i gasgliadau a llunio barn
- Datrys problemau
- Sgiliau ysgrifennu
- Sgiliau ymchwilio
- Sgiliau astudio annibynnol
- Sgiliau dadansoddol a gwerthusol
- Gwneud cysylltiadau

## GYRFAOEDD O FEWN Y PWNC:

Mae cyflogwyr bob amser yn chwilio am bobl ifanc sy'n gallu meddwl yn feirniadol ac yn ddadansoddol, ill dau yn nodweddion allweddol haneswyr. Gall astudio TGAU Hanes eich helpu i gymryd y camau cyntat tuag at amrywiaeth o lwybrau gyrfa, gan gynnwys y gyfraith, newyddiaduraeth, marchnata, adnoddau dynol, a rheoli.
Mae TGAU Hanes hefyd yn llwyfan ar gyfer astudio pellach ar letel Safon Uwch ac israddedig, naill ai mewn hanes ei hun neu mewn amrywiaeth eang o ddisgyblaethau eraill.

Gall weithredu fel carreg sylfaen ar gyfer addysg o bob math ac mae'n helpu i ddatblygu sgiliau academaidd sy'n hanfodol mewn amrywiaeth o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i amsugno llawer iawn o wybodaeth, didoli cynnwys, dadansoddi ffynonellau a dehongliadau, llunio dadleuon a dod i gasgliadau cytbwys.

# LLETYGARWCH
# AC ARLWYO

## Cyflwyniad:

Cynlluniwyd Dyfarniad Lefel 1/2 CBAC mewn Lletygarwch ac Arlwyo i helpu dysgwyr sydd am ddysgu am y sector galwedigaethol hwn a'i botensial o ran eu gyrfaoedd neu astudiaethau pellach. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr feithrin amrywiaeth o sgiliau arbenigol a chyffredinol lletygarwch ac arlwyo a fyddai'n eu helpu i gael gwaith.
Mae yna ddisgwyl i ddisgyblion i goginio o leiaf unwaith y pythefnos gyda ffocws pendant ar safon, cyflwyniad ac arddull penodol yn barod i'r asesiadau mewnol. Mi fydd y dysgwyr yn creu amrywiaeth o seigiau sawrus a melys o yn unol â thestunau penodol.

## Amlinelliad o'r cwrs:

Cwrs CBAC galwedigaethol sy'n annog sgiliau ymarferol arlwyo disgyblion ynghyd a'u haddysgu ynglŷn a'r diwydiant. Caiff y cwrs ei ddyfarnu ar lefelau pas, teilyngdod a rhagoriaeth.

Mi fydd yr unedau yn cynnwys: 1. Yr amgylchedd y mae darparwyr lletygarwch ac arlwyo yn gweithredu o'i fewn 2. Sut mae darparu lletygarwch ac arlwyo yn gweithio. 3. Iechyd a diogelwch. 4. Sut mae'r diwydiant lletygarwch ac arlwyo yn diwallu gofynion penodol.

## ASESU:

***Asesiadau mewnol**:*

Asesiad dan reolaeth sy'n gyfwerth a 60% o'r radd derfynol.
Arholiad ymarferol 3 awr sy'n rhan o'r gwaith cwrs.
***Arholiad Allanol**:* 80 munud 'Y diwydiant lletygarwch ac arlwyo' (40%)
Arholiad Allanol ym mlwyddyn 11 sy'n gyfwerth a 40% o'r gradd terfynol.

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:


Disgwylir i ddisgyblion ddarparu cynhwysion i'w gwersi ymarferol yn wythnosol.
Mi fydd gwaith cartref yn cael ei osod yn wythnosol.
Disgwylir i ddisgyblion weithio'n annibynnol i ymchwilio i'w asesiadau

## Sgiliau:

Y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer dysgu a'r rhai sy'n cael eu datblygu o fewn y cwrs yw; y gallu i ddatrys problemau; sgiliau ymchwilio; datblygu a chyflwyno sy'n seiliedig ar brosiectau; y gallu sylfaenol i gydweithio â gweithwyr proffesiynol eraill, mewn amgylchedd proffesiynol; sgiliau sylfaenol cegin a sgiliau coginio sylfaenol.

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Gall cyflogaeth mewn lletygarwch ac arlwyo amrywio o staff gweinyddol, staff derbynfa a chynorthwywyr arlwyo i brif gogyddion, rheolwyr gwestai a bar a thechnolegwyr bwyd sy'n gweithio mewn cynhyrchu bwyd. Mae'r holl rolau hyn yn gofyn am addysg bellach a hyfforddiant naill ai drwy brentisiaeth neu addysg bellach ac addysg uwch.



# PEIRIANNEG

## *Cyflwyniad:*

Mae peirianneg yn rym ysgogol yn economi'r DU, gan gyfrif am 21.4% (£1.2 triliwn) o drosiant £5.7 triliwn y DU yn 2018. Fodd bynnag, mae prinder sylweddol o weithwyr sy'n meddu ar y sgiliau priodol yn y sector peirianneg. Cynlluniwyd Dyfarniad Lefel 1/2 CBAC mewn Peirianneg i helpu dysgwyr sydd am ddysgu am y sector galwedigaethol hwn a'i botensial o ran eu gyrfaoedd neu astudiaethau pellach.

## *Amlinelliad o'r cwrs:*

Cwrs CBAC galwedigaethol sy'n annog sgiliau ymarferol disgyblion ynghyd a'u haddysgu ynglŷn a'r diwydiant. Caiff y cwrs ei ddyfarnu ar lefelau pas, teilyngdod a rhagoriaeth.

Mi fydd yr unedau yn cynnwys: 1. Gweithgynhyrchu cynhyrchion peirianegol. 2. Dylunio cynhyrchion peirianegol. 3. Datrys problemau peirianegol.

## *ASESU:*

***Uned 1—***Asesiad dan reolaeth. 20 awr. 40% o'r cymhwyster.

***Uned 2—***Asesiad dan reolaeth. 10 awr. 20% o'r cymhwyster.

***Uned 3—***Arholiad ysgrifenedig. 90 munud. 40% o'r cymhwyster.

## *Gwaith Cartref ac Annibynnol:*

Mi fydd gwaith cartref yn cael ei osod yn gyson.

Disgwylir i ddisgyblion weithio'n annibynnol i ymchwilio i'w asesiadau

## *Sgiliau:*

Y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer dysgu a'r rhai sy'n cael eu datblygu o fewn y cwrs yw; y gallu i ddatrys problemau; sgiliau ymchwilio; dylunio a rhifedd.

## *Cysylltiadau Gyrfáu:*

Mae'r cwrs yn rhoi sylfaen i unrhyw un sydd a diddordeb mewn gyrfa yn y diwydiant Peirianneg.



# TECHNOLEG DDIGIDOL

## Cyflwyniad:

Mae cymhwyster TGAU CBAC mewn Technoleg Ddigidol yn gymhwyster eang sy'n galluogi dysgwyr i adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddigidol a ddefnyddir yn eu bywydau yn yr ysgol a'u bywydau bob dydd.
Bydd y cymhwyster yn galluogi dysgwyr i feithrin eu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o systemau technoleg ddigidol a ddefnyddir yn ein cymdeithas gysylltiedig a byd eang.

## Amlinelliad o'r cwrs:

Ceir 3 uned orfodol:

***Uned 1*—**Y Byd Digidol—systemau, gwerth a safbwyntiau ar dechnoleg ddigidol

***Uned 2*—**Arferion Digidol - holi data a chynhyrchion digidol

***Uned 3*—**Cyfathrebu yn y byd digidol—cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebiadau marchnata

## ASESU:

***Uned 1*—**Arholiad ar-sgrin.(40%)

***Uned 2*—**Asesiad di-arholiad (40%)

***Uned 3*—**Asesiad di-arholiad (20%)

## Gwaith Cartref ac Annibynnol:

Caiff gwaith cartref ei osod yn achlysurol.

Mae disgwyl i ddisgyblion wneud gwaith ymchwil annibynnol fel paratoad ar gyfer yr aseiniadau.

## Sgiliau:

Mae'r cwrs yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu Sgiliau Allweddol/Hanfodol ymgeiswyr, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â datrys problemau, defnyddio TG a chyfathrebu. Byddant hefyd yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau mewn cymhwyso rhif, gweithio gydag eraill a gwella'u dysgu a'u perfformiad eu hunain.

## Cysylltiadau Gyrfáu:

Gall rhai disgyblion fynd ymlaen i ddilyn cwrs addysgu uwch neu yrfa mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu neu faes cysylltiedig. Gall y rhai sydd â diddordebau eraill hefyd elwa o'r sgiliau trosglwyddadwy niferus sy'n rhan annatod o astudio Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu .

YSGOL MORGAN LLWYD

Ym mhob llafur y mae elw


01978 315050

Ysgol Morgan Llwyd, Cefn Road,
Wrecsam, LL13 9NG

www.ysgolmorganllwyd.cymru

bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk

@ymll_wrecsam

@YsgMorganLlwyd

Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam